



Cyngor Tref Aberteifi :: Cardigan Town Council

Cofnodion Cyfarfod o'r Cyngor gynhaliwyd nos Fawrth, 5 Rhagfyr 2017 am 6.30yh yn Ystafell Gynhadledd 36 Pendre, Aberteifi.

Minutes of the Council Meeting held on Tuesday, 5 December 2017 at 6.30pm at the 36 Pendre Conference Room, Cardigan.

Presennol/Present—Y Cynghorwyr/Councillors John Adams-Lewis (**yn y gadair/in the chair**), Clive Davies, Elaine Evans, Graham Evans (*gadawodd/departed 7.15pm*), Marilyn Farmer, Wyn Jones, Siân Maehrlein, Catrin Miles, Steffan Morgan, Yvonne O'Neill (*gadawodd/departed 7.00pm*), Trystan Phillips, Shan Williams.

1. Croeso'r Cadeirydd a Materion Personol.

The Chair's Welcome and Personal Matters.

Yn absenoldeb anorfod y Maer, cadeiriwyd y cyfarfod gan y Dirprwy Faer, y Cyng. John Adams-Lewis. Cyfeiriodd at ei daith i'r Wladfa lle cyflwynodd, ar ran Pwyllgor Gefeillio Aberteifi/Trevelin, \$1,500 ynghyd â \$1,000 o'i lwfans maerol (2015-16) ei hun i'r Ysgol Gymraeg newydd yno. Teithiodd yno ar ei gostau ei hun. Cynigiwyd dymuniadau gorau'r cyngor i fam y Cyng. Trystan Phillips ac i Mrs Sheila Bowen, gweddw cyn-glerc y cyngor, Mr Keith Bowen, yn eu hanhwyldeb. Cyfeiriodd hefyd at brofedigaeth teuluol Mr Dave Parkinson, gohebydd y wasg.

Cyflwynwyd y darian a'r dystysgrif bersonol am y ffenest Nadolig harddaf i Salon K27 gan y Dirprwy Faer. Cyflwynwyd siopau Bragdy Barista a Trizaro gyda thystysgrifau "Gyda Chymeradwyaeth" gan y cyn-Faer, y Cyng. Clive Davies. Beirniaid y gystadleuaeth oedd Mrs Roz Sherman-Davies (Antur Teifi) a Miss Truscilla Lewis (Caffi Carn Alw, Marchnad Aberteifi).

In the unavoidable absence of the Mayor, the meeting was chaired by the Deputy Mayor, Cllr John Adams-Lewis. He referred to his recent journey to Patagonia where, on behalf of the local Cardigan/Trevelin Twinning Committee, he presented a donation of \$1,500 and also \$1,000 from his own mayoral allowance (2015-16) to the newly established Welsh school. Cllr Adams-Lewis was responsible for his own expenses. The council's best wishes were offered to Cllr Trystan Phillips, whose mother is presently unwell, and to Mrs Sheila Bowen, the widow of a past clerk of the council, Mr Keith Bowen, who is also receiving medical treatment. The council's sympathy was extended to Mr Dave Parkinson (Tivy-Side reporter) following a recent family bereavement. The Deputy Mayor presented Salon K27 with the Perpetual Shield and a personalised certificate for the best Christmas window. Bragdy Barista and Trizaro received "With Commendation" certificates from the past Mayor, Cllr Clive Davies. The competition judges were Mrs Roz Sherman-Davies (Antur Teifi) and Miss Truscilla Lewis (Caffi Carn Alw, Cardigan Guildhall Market).

2. Ymddiheuriadau / Apologies: Y Cyng. / Cllrs Richard Jones (*materion teuluol/family matters*), Debra Griffiths (*anhwyldeb/unwell*)

3. Datgan Diddordeb Rhagfarnol a Pheronol gan Gynghorwyr.

Declaration of Prejudicial and Personal Interest by Councillors.

| | |
|---------------------------------|--|
| Y Cyng. / Cllr John Adams-Lewis | Holl faterion cynllunio / All planning matters |
|---------------------------------|--|

4. Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod y Cyngor 7 Tachwedd.

Confirmation of Minutes of 7 November Council Meeting.

Cynigiwyd gan y Cyng. Marilyn Farmer ac eiliwyd gan y Cyng. Trystan Phillips bod cofnodion cyfarfod 7 Tachwedd yn gywir.

Cllr Marilyn Farmer proposed that the 7 November council minutes be recorded as correct; this was seconded by Cllr Trystan Phillips.

5. **Materion yn codi o'r Cofnodion / Matters arising from Minutes.**

6. **Gweithgareddau'r Maer. Dyddiadau i'w nodi.**

Activities of the Mayor. Dates for the diary.

7. **Cynllunio / Planning:**

| Rhify Cais / App. No. | Cyfeiriad / Address | Y Bwriad / Proposal | Sylwadau / Comments |
|-----------------------|---------------------------------|-------------------------------------|--|
| A171059 | Plot 4 Gotrel Farm, Ferwig Road | Codi tŷ. Erection of a dwelling. | Mae'r cyngor yn cefnogi'r cais. The council supports the application. |

8. (a) **Biliau i'w talu / Bills to be paid.**

| Dyddiad / Date | Disgrifiad / Description | Côd / Code | Rhify Siec / Cheque No. | Swm (TAW) / Sum (VAT) |
|----------------|---|-----------------|-------------------------|---|
| 6/10/17 | Teifi Installations: <i>Gwaith ar Gae Chwarae Pentop</i> . Work carried out at the Pentop Playing Field. <i>Tâl blaenorol/</i> Previous payment, Readjustment = | C12 | 4478 4479 | £18,439.00 (3,073.17) £3,687.80 (614.63) |
| 1/12/17 | Tai Aberteifi Ltd.: <i>Rhent Swyddfa'r Cyngor /</i> Rent of Council Office (<i>Tachwedd /</i> November). <i>Rhent yr Ystafell Gynhadledd/</i> Rent of Conference Room (7 & 21 <i>Tachwedd /</i> November) <i>Band Lydan (Rhagfyr) /</i> Broadband (December) | A9 A9 A20 | D/D 4480 4480 | £250.00 (0.00) £50.00 (0.00) £20.00 (0.00) |
| 28/11/17 | Llinos Jones: <i>Cyfieithu ar y pryd /</i> Simultaneous translation (8/11/17) | A18 | 4481 | £70.80 (0.00) |
| 30/11/17 | L. W. Jones: <i>Cyflog y Clerc /</i> Clerk's Salary (<i>Tachwedd /</i> November) | A3 | 4482 | £756.36 (0.00) |
| 24/11/17 | J. Harries Electrical: <i>Deunydd y goleuadau Nadolig.</i> Christmas lights material (2 invoices) | B1 | 4483 4483 | £91.68 (15.28) £6.00 (1.00) |
| 24/11/17 | Astounded: <i>System sain symudol /</i> Mobile sound system | A17 | 4484 | £169.00 (28.17) |
| 7/10/17 | Midshire: <i>Ôl-daliad cyfrif (cyfanswm £831.63+ VAT)</i> 6 monthly instalments of £166.33 (incl. VAT) back payment (3rd instalment) | A17 | 4485 | £166.33 (27.72) |
| 17/11/17 | Menter Aberteifi: <i>Hurio Ystafell Radley a'r gegin.</i> Hire of Ystafell Radley and kitchen (Remembrance Sunday). Ystafell Radley: <i>Cyflwyniad tystysgrifau ffenest Nadolig.</i> Presentation of Christmas window certificates. | A23 B1 | 4486 | £50.00 (0.00) £15.00 (0.00) |
| 12/11/17 | <i>Y Lleng Brydeinig Cangen Aberteifi: Plethdorch</i> Royal British Legion Cardigan Branch: Wreath donation | D3 | 4487 | £50.00 (0.00) |
| 10/11/17 | David Evans & Sons: <i>Ysgythr ar darian.</i> Engraving on Christmas Window shield | B1 | 4488 | £3.70 (0.62) |
| 6/11/17 | D. E. Owen & Son: <i>Torri gwair y Cae Chwarae.</i> Grasscutting of King George 5 th Playing Field | B3 | 4489 | £2,026.62 (337.77) |
| 30/11/17 | Y Cyng. / Cllr Richard M. Jones (<i>Lwfans y Maer /</i> Mayor's allowance: 2 nd instalment) | A1 | 4490 | £1,600.00 (0.00) |
| 30/11/17 | <i>Y Clerc: Costau – lluniaeth, cludiant, cardiau.</i> The Clerk: Expenses – refreshments, postage, cards | A21 | 4491 | £82.35 (0.00) |
| 30/11/17 | <i>Bachan Deche /</i> Handyperson: (<i>Tachwedd /</i> November) | A19 | 4492 | £250.80 (41.80) |

Cynigiodd y Cyng. Steffan Morgan bod y biliau uchod yn cael eu talu; eiliwyd gan y Cyng. Elaine Evans.

Cllr Steffan Morgan proposed that the above bills be paid; this was seconded by Cllr Elaine Evans.

Derbyniadau/Receipts:

| | | |
|---------|---|-------|
| 9/10/17 | <i>Llog y Banc /</i> Bank interest | £2.33 |
| 2/11/17 | Welsh & Co.: <i>Gor-daliad /</i> Overpayment returned | £3.00 |

(b) Gosod dyddiadau i gyfarfod misol y cyngor yn Ionawr a chyfarfod y gyllideb.

Set dates for January monthly meeting and budget meeting.

Cytunwyd cynnal cyfarfod misol y cyngor ar 9 Ionawr gyda chyfarfod y gyllideb nos Fercher, 17 Ionawr am 6.00yh. Cynhelir yr is-bwyllgorau ar 23 Ionawr.

It was resolved to hold the monthly council meeting on 9 January, the budget meeting on Wednesday, 17 January at 6.00pm and the sub-committees on 23 January.

Cynigydd/proposer: y Cyng./Cllr Clive Davies; eilydd/secondar: y Cyng./Cllr Catrin Miles.

9. Adroddiadau'r Cyngorwyr Sir / Reports from County Councillors.

(a) Y Cyng. John Adams-Lewis:

- (i) Dywedodd y Cyng. Adams-Lewis ei fod ef a'r Cyng. Catrin Miles wedi cyfarfod â Steve Williams (cyngor sir) a Mr Vernon Studt ynglŷn â threfniadau Ffair Aberteifi. Ni ddatgelwyd unrhyw broblem ac ni thrafodwyd costau'r stondinau. Gan fod adroddiadau bod y ceblau oedd yn croesi'r ffordd wedi achosi damweiniau, cytunodd y Cyng. Adams-Lewis drafod y mater gyda'r swyddogion. Gofidiwyd bod safon y stondinau wedi syrthio yn ystod y blynyddoedd diwethaf; gwyntyllwyd y syniad o wahodd crefftwyr lleol i arddangos stondinau ar y noson, ac awgrymwyd cynnig parcio am ddim ar y dydd.

(b) Y Cyng. Catrin Miles:

- (i) Gofid oedd clywed am benderfyniad banc NatWest i gau nifer o ganghennau yng Nghymru, yn cynnwys Aberteifi, ar 30 Mai 2018. Pwysleisiodd y Cyng. Miles y dylai'r banc fod wedi cynnal ymgynghoriad cyn dod i benderfyniad mor amhoblogaidd, ac yn sicr nid yw cynnal y gwasanaeth mewn swyddfa bost yn dderbyniol. Cynhelir cyfarfod cyhoeddus yn Neuadd y Dre tan gadeiryddiaeth y Cyng. Clive Davies ar 18 Ionawr i drafod y penderfyniad a gwyntyllu effeithiolrwydd bancio ar-lein. Mae Elin Jones AC a Ben Lake AS wedi dechrau deiseb ar-lein yn annog NatWest i ailystyried cau canghennau Aberteifi a Llanbedr Pont Steffan.
- (ii) Bydd cerbyd ailgylchu'r cyngor sir ar sgwâr y dref ddydd Gwener, 8 Rhagfyr rhwng 10.30 a 1.30 o'r gloch. Mae holiadur i'w lanw ar-lein.
- (iii) Parcio tu allan i gapel y Tabernacl: Awgrymwyd y dylid symud y man parcio i'r anabl yn ôl tua Neuadd y Dref er mwyn hwyluso parcio i'r gyrrwr anabl. Trafodir yw awgrym gyda Mr Tom Delph-Janiurek, Rheolwr/Beiriannydd Rheoli Trafndiaeth y cyngor sir.
- (iv) Y mae'r cyngor sir yn ymgynghori ar Gynllun Llesiant Lleol newydd ar hyn o bryd a gall y cyhoedd fwydo i mewn i hwn ar-lein:

<https://www.ceredigion.gov.uk/media/3265/ffurflen-ymateb-cynllun-llesiant-lleol-ceredigion.pdf>
Dyddiad cau 3/1/2018.

(b) Y Cyng. Elaine Evans:

- (i) Trafodwyd problem parcio ym Maes-yr-haf gyda Mr Tom Delph-Janiurek, Rheolwr/Beiriannydd Rheoli Trafndiaeth y cyngor sir er mwyn gosod llinellau melyn dwbl i hwyluso trafndiaeth bysys.
- (ii) Mae'r problemau o geir yn parcio ger palmentydd yr anabl yn dal i fod yn rhwystr yn y dref. Awgrymwyd bod y mater yn cael ei godi yng nghyfarfod PACT ar 6 Rhagfyr am 7.00yh.
- (iii) Mae angen archwilio'r plismon spidio yn Teras William gan fod dŵr yn ymgasglu ar ei ochr a chreu problemau.

(a) Cllr John Adams-Lewis:

- (i) Cllr Adams-Lewis stated that he and Cllr Catrin Miles attended a meeting with Steve Williams (county council) and Mr Vernon Studt regarding arrangements for Cardigan Fair. No problems were presented at the meeting and the topic of stall charges did not arise. Reports of an individual sustaining a fall and others stumbling over the power cables spanning the street came to the council's attention. Cllr Adams-Lewis agreed to discuss this potential hazard with the county council. Concern was expressed at the falling standard of stalls during recent years; the possibility of inviting local craftspeople to display their wares was mooted, as also was the possibility of introducing free car parking for the day.

(b) Cllr Catrin Miles:

- (i) Concern was expressed at the news that NatWest bank intends closing a number of its branches in Wales, including Cardigan, on 30 May 2018. Cllr Miles stressed that the bank should have held consultation periods before coming to this conclusion which is proving so unpopular, and locating the services to a post office is not acceptable. A public meeting will be held in the Guildhall under the chairmanship of Cllr Clive Davies on 18 January to discuss this decision and to highlight the effects of using on-line banking services. Elin Jones AM and Ben Lake MP have created an on-line petition requesting NatWest to reconsider closing Cardigan and Lampeter branches.
- (ii) The county council recycling unit will be located outside the Factory Shop on Friday, 8 December from 10.30 until 1.30pm. A questionnaire is available on-line.
- (iii) Parking alongside Tabernacl chapel: It has been recommended that the county council moves one disabled parking space back towards the Guildhall enabling easier manoeuvrability for the disabled driver. This suggestion has been discussed with Mr Tom Delph-Janiurek, Senior Engineer Traffic Management of the county council.
- (iv) The county council is in consultation with the latest Regional Well-being Plan; the public may participate on-line:

<https://www.ceredigion.gov.uk/media/3265/ffurflen-ymateb-cynllun-llesiant-lleol-ceredigion.pdf>

Closing date: 3/1/2018.

(c) Cllr Elaine Evans:

- (i) Cllr Evans has discussed the parking problem at the Maes-yr-haf junction with Mr Tom Delph-Janiurek, Senior Engineer Traffic Management with the county council. It was recommended that double yellow lines be placed to alleviate the problem experienced by local service buses especially.
- (ii) Problems of vehicles parking alongside disabled ramps persist in the town. It was suggested that the matter be highlighted at the PACT meeting to be held on 6 December at 7.00pm.
- (iii) The upper speed-bump at Williams Terrace needs inspection as water gathers alongside.

10. Gohebiaeth / Correspondence.

| | <i>Llythyron i'w nodi / i'w darllen</i> <i>Letters to be noted / read</i> | <i>Sylwadau / Comments</i> |
|-----|---|---|
| 182 | CSC / CCC (Louise Zerk): <i>Cau'r ffordd / road closure: Theatr Byd Bychan/Small World Theatre (Lantern Parade), 8/12/17, 18.45-19.45pm.</i> | <i>Mae copi wedi ei flaenyrru at aelodau.</i> Copy forwarded to members 8/11/17. |
| 183 | CSC / CCC (Mererid Jones): <i>Cerbyd ailgylchu ar Sgwâr Aberteifi.</i> Recycling Unit on Cardigan Square, 8/12/17, 10.30-3.30pm | <i>Mae copi wedi ei flaenyrru at aelodau.</i> Copy forwarded to members 14/11/17. <i>Mae posteri wedi eu harddangos.</i> Posters have been displayed. |
| 184 | CSC / CCC (Diane Williams): <i>Dogfen ddiweddaraf Cymdogion Cynnes Tachwedd 2017.</i> Latest version of the Cymdogion Cynnes document. | <i>Mae copi wedi ei flaenyrru at aelodau.</i> Copy forwarded to members 28/11/17. |
| 185 | CSC / CCC (Marianne De Vries): <i>Ffordd ar gau dros dro / Temporary road closure: Cefn Neuadd y Dref / Rear of Guildhall, 22/9/14 – 22/5/18. I atgyweirio wal gefn y Neuadd.</i> To repair damaged rear wall of the Guildhall. | <i>Mae copi wedi ei flaenyrru at aelodau.</i> Copy forwarded to members 16/11/17. |
| 186 | CSC / CCC (Stephen Johnson): <i>Trethi Annomestig Cenedlaethol / National Non-Domestic Rates</i> | <i>Cytunwyd anfon copi o'r anfoneb a'r cytundeb ymlaen at Mr Phil Evans.</i> It was agreed to forward a copy of the demand and the contract to the landlord. |
| 187 | CSC / CCC (Mrs Sonia Davies / Miss Sara Edwards): <i>Llythyron oddi wrth Mrs Sonia Davies a'r Arglwydd Raglaw yn diolch ac yn llongyfarch y cyngor ar drefniadau Sul y Cofio.</i> Letters from Mrs Sonia Davies and the Deputy Lieutenant thanking and commending the town council on the Remembrance Day arrangements. | <i>Nodwyd.</i> Noted. |

| | | |
|-----|--|--|
| 188 | CSC / CCC (Russell Hughes-Pickering): <i>Gwybodaeth Briffio am Gynlluniau Lleoedd Ceredigion.</i> Ceredigion Place / Action Plans Briefing Information. | <i>Nodwyd.</i> Noted. <i>Mae'r gwybodaeth briffio yn cyfeirio at ddyfodol y cynllun datblygu lleol o'r flwyddyn 2022 ymlaen.</i> The briefing information refers to the future local development plan for Ceredigion from 2022 onwards. |
| 189 | CSC / CCC (Eifion Evans): <i>Cyfarfod rhwng cynrychiolwyr y Cyngor Sir a Chyngorau Tref a Chymuned, Ionawr 2018.</i> Meeting between representatives of the County Council and Town and Community Councils, January 2018. Neuadd Ysgol Bro Teifi, Llandysul, 16/1/18, 6.30pm | <i>Bydd y cynghorwyr sir lleol yn mynychu'r cyfarfod.</i> The local county council members will attend the meeting. |
| 190 | Tai Ceredigion Cyf. (Steve Jones): <i>Ymateb y Prif Weithredwr i ofynion Maes Chwarae Maesglas.</i> Response from the Chief Executive regarding the Maesglas Play Area. | <i>Mae copi wedi ei flaenyrru at aelodau.</i> Copy forwarded to members 8/11/17. <i>I'w drafod yn yr is-bwyllgorau ar 12 Rhagfyr.</i> The item to be discussed at the 12 December sub-committees. |
| 191 | YCA Cadwgan BPT: <i>Ymateb Jac Davies i gais y cyngor i ddiogelu'r llechen a'r plac ar fur Gardd Brioude.</i> Response from Jac Davies regarding safekeeping of the slate and plaque on the Brioude Garden wall. | <i>Nodwyd.</i> Noted. |
| 192 | <i>Cydweithrediad Iechyd GIG Cymru: Rhwydwaith Trawma Mawr i Dde a Gorllewin Cymru a De Powys.</i> NHS Wales Health Collaborative: A Major Trauma Network for South and West Wales and South Powys. | <i>Dosbarthwyd yr holiadur i aelodau.</i> The questionnaire was distributed to members. <i>Am ragor o wybodaeth / For further information:</i> www.publichealthwales.org/majortraumaconsultation |
| 193 | Npower: <i>Cais am daliad oddi wrth berchennog Golwg y Castell am drydan.</i> Application for payment from the owner of Golwg y Castell for electricity covering the period of approx. 29/3/1996 to the present day. | <i>Nodwyd.</i> Noted. <i>Ni dderbyniwyd atebion boddhaol oddi wrth y cwmni.</i> Satisfactory answers to town council queries were not forthcoming. |
| 194 | <i>Pwyllgor Gefeillio Brioude/Aberteifi:</i> <i>Gwahoddiad i'r Maer a'r Faeres i'r ginio blynyddol.</i> Brioude/Cardigan Twinning Committee: Invitation to the Mayor and Mayoress to the annual dinner at the Cliff Hotel, 10/12/17, 12.30 for 1.00pm. | <i>Mae'r gwahoddiad wedi ei drosglwyddo i'r Maer.</i> The invitation has been forwarded to the Mayor. <i>Bydd y cyn-Faer, y Cyng. Clive Davies, yn cynrychioli'r cyngor yn y ginio.</i> The past Mayor, Cllr Clive Davies, will represent the council at the dinner. |
| 195 | <i>Pwll Nofio Aberteifi: Llythyr o ddiolch am y cyfraniad.</i> Cardigan Swimming Pool: Letter acknowledging the council donation. | <i>Diolchodd y Cyng. Catrin Miles i'r Cyng. Steffan Morgan a Mr Mathew Morgan am gynorthwyo gyda'r goleuadau newydd yn y ganolfan.</i> The above-named were thanked by Cllr Miles for assisting with the new lights at the complex. |
| 196 | <i>4CG (Cymdeithas Cynnal/Cefnogi Cefn Gwlad):</i> <i>Llythyr o ddiolch am y cyfraniad at gynnal y toiledau.</i> Letter acknowledging the council donation towards the upkeep of the Feidrfair and Chancery Lane toilets. | <i>Nodwyd.</i> Noted. |
| 197 | George Davies & Evans (Mr John Dyer): <i>Diweddariad ynglŷn â phrydlesau'r Clwb Bowls a'r Clwb Rygbi.</i> Update pertaining to the Cardigan Bowls Club and Cardigan RFC leases. | <i>Copiâu wedi eu trosglwyddo i'r cynghorwyr perthnasol.</i> Copies forwarded to Cllrs John Adams-Lewis, Clive Davies, Catrin Miles and Graham Evans. <i>Trefnir cyfarfod i drafod yr eitem.</i> A meeting to be arranged to discuss the item. |
| 198 | <i>Llywodraeth Cymru: Gwybodaeth am y swm priodol o dan Adran 137(4)(a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.</i> <i>Gwariant y terfyn ar gyfer 2018-19 = £7.86 am bob etholwr.</i> Welsh Government: Information regarding the appropriate sum under Section 137(4)(a) of the Local Government Act 1972. Expenditure limit for 2018-19 = £7.86 per elector. | <i>Nodwyd gogyfer â chyfarfod y gyllideb.</i> Noted for the budget meeting. |
| 199 | <i>Cronfa Loteri Fawr: Llythyr terfynol yn cymeradwyo'r grant tuag at welliannau i'r Maes Sgrialu.</i> Final letter approving payment of grant for Skateboard Park improvements (£4,704). | <i>Bydd y Cyng. Clive Davies yn cyfarfod ag ymddiriedolwyr y maes ar 14 Rhagfyr i wyntyllu eu cyfrifoldebau.</i> Cllr Clive Davies will meet with the trustees of the park on 14 December highlighting their responsibilities. |

| | | |
|-----|---|---|
| 200 | Mrs Monima O'Connor, Llangoedmor: <i>Cyfres o e-byst yn cyfeirio at Adroddiad Busnes Canolfan Gofal Integredig Aberteifi.</i> A series of e-mails referring to the Cardigan Integrated Care Centre Full Business Case. | Cytunwyd gwahodd Mrs O'Connor i estyn cyflwyniad i'r cyngor ar 12 Rhagfyr. Mrs O'Connor was invited to address the council at the 12 December sub-committee meeting. |
|-----|---|---|

Cathryn Morgan: *Cydlynnydd Teuluoedd yn Gyntaf / Families First Coordinator*
Diane Williams: *Swyddog Lles Cymunedol ac Ymgysylltu 50+ / Community Wellbeing and 50+ Engagement Officer.*
Eifion Evans: *Prif Weithredwr / Chief Executive*
Louise Zerk: *Adain Cau Ffyrdd / Road Closures*
Marianne De Vries: *Adain Cau Ffyrdd / Road Closures Section*
Mererid Jones: *Ailgylchu / Recycling*
Russell Hughes-Pickering: *Pennaeth Perfformiad a Gwelliant – Head of Performance and Improvement*
Stephen Johnson: *Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol / Head of Financial Service*

11. **Mabwysiadu'r Côt Ymddygiad i Aelodau.**

Adoption of the Code of Conduct for Members.

Blaenyrrwyd y ddogfen i'r holl aelodau ym mis Mai 2017.

The document was forwarded to all members in May 2017.

Cynigiwyd gan y Cyng. Marilyn Farmer ac eiliwyd gan y Cyng. Elaine Evans bod y cyngor yn mabwysiadu'r ddogfen "Côt Ymddygiad i Aelodau" yn ei chrynswth. Roedd pawb yn gytûn.

Cllr Marilyn Farmer proposed that the council adopts the document "Code of Conduct for Members"; seconded by Cllr Elaine Evans. All were in agreement.

12. **Materion Is-bwyllgorau, Adroddiad y Bachan Deche a Mudiadau Allanol.**

Sub-committee matters, Handyperson's Report and External Organisations.

Cadarnhau Cofnodion yr Is-bwyllgorau 21 Tachwedd.

Confirmation of 21 November Sub-committee Minutes.

Cynigiwyd gan y Cyng. Marilyn Farmer ac eiliwyd gan y Cyng. Siân Maehrlein bod cofnodion 21 Tachwedd yn gywir.

Cllr Marilyn Farmer proposed that the 21 November minutes be recorded as correct; this was seconded by Cllr Siân Maehrlein.

Materion yn codi Matters arising

Tud. 1304 (Unrhyw Fater Arall) (b): Yn dilyn yr e-bost a dderbyniwyd oddi wrth glerc Cyngor Cymuned Llandudoch, cytunwyd bod y cyngor yn diddymu'r argymhelliad i dalu 50% o gostau'r Gofrestrfa Tir.

Tud. 1304 (Unrhyw Fater Arall) (e): Cytunodd Mr Paul Oakley, swyddog Sianel Glir Afon Teifi, ailosod y gwregys achub ar yr amod ei fod yn cael ei ad-dalu gan y cyngor sir.

Page 1304 (*Any Other Business*) (b): As a result of the e-mail received from the clerk of St Dogmaels Community Council, it was agreed to rescind the recommendation to pay 50% of the Land Registry costs.

Page 1304 (*Any Other Business*) (e): Mr Paul Oakley, an official of the Afon Teifi Fairways Committee, has agreed to replace the lifebelt on the condition of receiving a reimbursement from the county council.

13. **Unrhyw Fater Arall ar ddoethineb y Maer.**

Any Other Business at the discretion of the Mayor.

(a) **Y Cyng. / Cllr Clive Davies:**

(i) **Cymeradwyo taliad am yr arwyddbyst.**

Approve payment for finger posts.

Cynigiwyd gan y Cyng. Siân Maehrlein ac eiliwyd gan y Cyng. Steffan Morgan bod y cyngor yn talu'r costau o £3,686.89 tuag at yr arwyddbyst.

It was proposed by Cllr Siân Maehrlein and seconded by Cllr Steffan Morgan that the council pays £3,686.89 towards the costs of the finger-posts.

- (ii) **Cymeradwyo taliad am fyrddau dehongli'r mesysydd parcio a gynlluniwyd a chynhyrchwyd gan Mr Ben Cramp a'r mapiau o waith celfydd Ms Lisa Hellier.**
Approve work on the car park interpretation boards which are designed and manufactured by Mr Ben Cramp, and the map-producing expertise of Ms Lisa Hellier.
Cytunwyd gan y cyngor i dalu oddeutu £8,000 am y byrddau hysbysu newydd.
Cinigiwyd gan y Cyng. Steffan Morgan ac eiliwyd gan y Cyng. Elaine Evans.
It was agreed by council to approve the payment of approx. £8,000 for the interpretation boards.
Proposed by Cllr Steffan Morgan and seconded by Cllr Elaine Evans.
- (iii) **Angen arwyddion i "Rhodfa'r Felin".**
Street signs required for "Rhodfa'r Felin".
Dywedodd y Cyng. Adams-Lewis bod trefniadau ar y gweill i gynhyrchu'r arwyddion.
Cllr Adams-Lewis confirmed that plans are afoot to produce signs for the road.
- (v) **Angen baner newydd Y Ddraig Goch tu allan i Neuadd y Dref.**
New Red Dragon flag required outside the Guildhall.
Cytunwyd i'r clerc wneud ymholiadau am faner fwy grymus.
It was agreed that the clerk sources a more durable flag.
- (b) **Y Cyng. / Cllrs Siân Maehrlein & Yvonne O'Neill:**
- (i) **Sylwadau am Ffair Aberteifi – gweler eitem 9(a)(i).**
Observations regarding Cardigan Fair – see item 9(a)(i)
- (c) **Y Cyng. / Cllr Wyn Jones:**
- (i) **Gwasanaeth bysys ar y Sul.**
Sunday bus service in the area.
Cytunodd y Cyng. Jones gysylltu â Mr Marteine Richards (cwmni bysys y Brodyr Richards) am ei sylwadau ynglŷn â'r posibiladau.
Cllr Jones agreed to contact Mr Marteine Richards (Richards Bros.) requesting his observations regarding the proposal.
- (d) **Y Cyng. / Cllr Marilyn Farmer:**
- (i) **Cais am ymddiriedolwyr newydd ar fwrdd Menter Aberteifi.**
Request for new trustees for the Menter Aberteifi board.
Awgrymwyd, gan fod y wasg yn bresennol yn y cyfarfod, bod apêl yn cael ei roi yn y papur lleol.
As a journalist was present in the meeting, it was suggested that an appeal be submitted in the local paper.
- (ii) **Cais am finiau sbwriel ym Maeshenffordd a Gerddi Napier.**
Request for litter bins at Maeshenffordd and Napier Gardens.
Cytunwyd bod y clerc yn ysgrifennu at y cyngor sir gan ofyn iddynt ystyried gosod biniau sbwriel ar y safleoedd uchod.
It was agreed that the clerk requests the county council to place litter bins at the above locations.
- (e) **Y Cyng. / Cllr Yvonne O'Neill:**
- (i) **Costau parcio i fsys ym maes parcio Mwldan.**
Bus parking fees at the Mwldan car park.
Cytunodd y Cyng. Siân Maehrlein godi'r mater yng nghyfarfod nesaf Masnachwyr Aberteifi.
Cllr Siân Maehrlein agreed to raise the matter at the next Cardigan Traders meeting.

Gan nad oedd materion pellach i'w trafod, daeth y cyfarfod i ben am 8.10yh

There being no further business to discuss, the Deputy Mayor closed the meeting at 8.10pm.

Arwyddwyd/Signed (Cadeirydd/Chairperson) Dyddiad/Date